

Diploma Proffesiynol Lefel 4 mewn Perfformio

Mae Diploma Proffesiynol Lefel 4 UAL mewn Perfformio yn gwrs amser llawn sydd wedi'i gynllunio i roi'r sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i fyfyrwyr symud ymlaen i addysg uwch, hyfforddiant conservatoire, neu'n uniongyrchol i gyflogaeth yn y diwydiannau creadigol.

Bydd y cwrs yn rhoi cyfle i fyfyrwyr ymestyn a mireinio eu sgiliau ymarferol tra'n diffinio eu diddordebau personol a'u maes arbenigedd eu hunain. Bydd yn galluogi myfyrwyr i archwilio, datblygu a phrofi eu creadigrwydd o fewn strwythur cymhwyster sy'n ysgogol a heriol ac sy'n darparu trosglwyddiad cefnogol i naill ai hyfforddiant lefel uwch neu gyflogaeth.

Mae'r cymhwyster yn addas ar gyfer myfyrwyr sydd wedi cwblhau Lefel A neu Ddiploma Estynedig Lefel 3 ac sy'n dymuno parhau â'u haddysg trwy ddysgu cymhwysol.

Yma, yng Ngrŵp Colegau NPTC, rydym yn ymroddedig i ddarparu'r addysgu a'r dysgu gorau i bobl sydd am ddilyn gyrfa barhaol yn y Celfyddydau Perfformio.

Byddwch yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau perfformio fel rhan o Ovation Theatre Company (Coleg y Drenewydd), gan ddefnyddio ein stiwdio drama/dawns a Theatr Hafren.

Gofynion Mynediad

Mae hwn yn gwrs lefel broffesiynol. Fel y cyfryw, mae dechreuwyr fel arfer wedi ennill 3 chymhwyster Lefel A neu gymhwyster galwedigaethol Lefel 3 cyfwerth ar lefel Teilyngdod neu uwch. Yn ogystal, mae angen i bob ymgeisydd fynychu clyweliad yn llwyddiannus.

Rhagolygon Gyrfa

Gall myfyrwyr sy'n cwblhau Diploma Proffesiynol Lefel 4 UAL mewn Perfformiad symud ymlaen i:

Addysg Uwch/Hyfforddiant Conservatoire

Bydd y cymhwyster yn cefnogi myfyrwyr i ddatblygu portffolio o waith fydd yn eu galluogi i symud ymlaen i addysg uwch neu gyrsiau Conservatoire.

Cyflogaeth / Hunangyflogaeth

Gall myfyrwyr sy'n cwblhau'r cymhwyster hwn symud ymlaen i rolau yn y diwydiannau creadigol, fel:

- Actor
- Dawnsiwr

Coleg Afan
Coleg Bannau Brycheiniog
Academi Chweraeon Llandarcy
Canolfan Ragoriaeth Adeiladwaith Maesteg
Coleg Castell-nedd
Coleg Y Drenewydd
Coleg Pontardawe
Canolfan Adeiladwaith Abertawe

Afan College
Brecon Beacons College
Llandarcy Academy of Sport
Maesteg Construction Centre of Excellence
Neath College
Newtown College
Pontardawe College
Swansea Construction Centre





- Theatr Gerddorol
- Cerddor
- Cyfarwyddwr
- Dramaturg
- Coreograffydd

Modiwlau'r cwrs

Mae'r cwrs yn cynnwys tair uned graidd a rhaid i fyfyrwyr y tair er mwyn cyflawni'r cymhwyster.

Uned 1 - Arfer Proffesiynol Cymhwysol

Mae'r uned hon yn cyflwyno myfyrwyr i realiti amgylchedd gwaith proffesiynol a bydd yn rhoi iddynt y safonau ymarfer proffesiynol angenrheidiol a'r safonau ymarfer proffesiynol sy'n ofynnol o fewn diwydiant.

Uned 2 - Techneg Perfformio Arbenigol

Yn yr uned hon, bydd myfyrwyr yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau perfformio er mwyn datblygu eu techneg perfformio.

Uned 3 - Prosiect Perfformiad Arbenigol

Ffocws yr uned olaf hon yw i fyfyrwyr wireddu eu huchelgeisiau perfformiad proffesiynol trwy gychwyn, ymarfer a pherfformio mewn prosiect perfformio arbenigol.

Asesiad

Bydd asesu ar gyfer y cwrs hwn yn barhaus a bydd ar ffurf gweithdai ymarferol, perfformiadau, traethodau ysgrifenedig, portffolios a chyflwyniadau.

Costau Ychwanegol

Gwiriad DBS sylfaenol ar gyfer myfyrwyr aeddfed.

£50 tuag at deithiau Addysg

DULL ASTUDIO

FT

LLEOLIAD

Coleg Y Drenewydd - 0330 818 8100

Coleg Afan
Coleg Bannau Brycheiniog
Academi Chweraeon Llandarcy
Canolfan Ragoriaeth Adeiladwaith Maesteg
Coleg Castell-nedd
Coleg Y Drenewydd
Coleg Pontardawe
Canolfan Adeiladwaith Abertawe

Afan College
Brecon Beacons College
Llandarcy Academy of Sport
Maesteg Construction Centre of Excellence
Neath College
Newtown College
Pontardawe College
Swansea Construction Centre





HYD Y CWRS

Blwyddyn

Coleg Afan
Coleg Bannau Brycheiniog
Academi Chwaraeon Llandarcy
Canolfan Ragoriaeth Adeiladwaith Maesteg
Coleg Castell-nedd
Coleg Y Drenewydd
Coleg Pontardawe
Canolfan Adeiladwaith Abertawe

Afan College
Brecon Beacons College
Llandarcy Academy of Sport
Maesteg Construction Centre of Excellence
Neath College
Newtown College
Pontardawe College
Swansea Construction Centre

